## .....clêr

Byddwn yn derbyn llawer o gwynion bob blwyddyn am glêr, yn enwedig yn ystod yr haf a'r hydref. Mae clêr yn gyffredin mewn ardaloedd gwledig lle mae digon o dail i'w gael bob amser mewn ffermydd a stablau iddynt fagu ynddo. Y mathau canlynol o glêr sy'n achosi'r problemau mwyaf gan fynychaf.

## .....clêr cyffredin

Gall cleren fenyw ddodwy rhwng 120 a 150 o wyau ar y tro, a bydd y rhain yn deor ymhen 8-48 awr yn ddi-weddarach gan ddibynnu ar y tymheredd. Greddf gyntaf y cynrhon newydd fydd tyrchu i'r bwyd. Ymddengys y clêr aeddfed weithiau ymhen pedwar diwrnod ond bydd yn rhaid iddynt dreulio rhai wyth-nosau'n aeddfedu os digwydd i'r tywydd fod yn oer. Daw'r clêr cyntaf ym mis Mai ond byddant ar eu mwyaf niferus fel arfer ym mis Awst a mis Medi.

Ni fydd clêr fel arfer yn magu ar ôl mis Hydref, ac eithrio mewn adeiladau sydd wedi'u cynhesu. Bydd Cleren Gyffredin yn cymryd mwy o amser i gwblhau ei gylch bywyd yn ystod y gaeaf. Bydd y clêr yn magu mewn adeiladau addas ar gig neu lysiau pydredig, tomenni ysbwriel a thail ceffyl.

## .....clêr bach

Mae gan Gleren Fach a Chleren Gyffredin gylchoedd bywyd digon tebyg i'w gilydd, er na fydd Clêr Bach fel arfer yn byw ar fwyd pobl yn ogystal â deunydd gwastraff. Mae'n hawdd adnabod Cleren Fach am y bydd yn gwibio'n wyllt i bob cyfeiriad.

## .....clêr heidiog

Cafodd y clêr hyn eu henwi felly am eu bod yn heidio fel gwenyn. Maent yn fwy na Chlêr Cyffredin ac yn hawdd eu hadnabod am eu bod yn plygu eu hadenydd dros eu cefnau.



02862 (3/04)

Bydd Clêr Heidiog yn dod i mewn i dai yn ystod yr hydref er mwyn cysgu'r gaeaf ac yn gadael yn y gwanwyn, a dyma'r adegau y bydd y problemau gwaethaf. Yn yr hydref, bydd tuedd iddynt ymgasglu y tu allan ar waliau uchel a thoeon cynnes a dod i mewn i adeiladau wedyn er mwyn heidio– weithiau yn eu miloedd – yng ngheudod y to, o dan deils ac y tu fewn i ffenestri codi. Arfilyn sy'n byw ar gorff mwydyn yw'r gleren heidiog ac mae digonedd o fwydod i'w cael fel arfer ym mhob gardd.

## .....rheoli clêr

Cedwch eich bin ysbwriel yn lân bob amser a gwnewch yn siŵr eich bod wedi lapio unrhyw fwyd sy'n debyg o bydru. Mae chwistrell saethu hefyd yn dda ar gyfer lladd clêr achlysurol. Os bydd clêr (megis Clêr Heidiog) yn achosi problem ddifrifol, gellwch grogi stribedi dal clêr yng ngheudod y to a defnyddio sugn-wr llwch i glirio'r rhai marw. Gorchuddiwch fwyd bob amser i'w gadw rhag ei lygru. Bydd ein swyddogion difa pla'n cynnig gwasanaeth proffesiynol os oes gen-nych broblem ddifrifol, ond bydd yn rhaid i chi dalu amdano.

**Taflenni eraill yn y gyfres hon:**

1 Chwain
2 Llygod Ffrengig
3 Llygod
4 Morgrug
5 Cacwn Meirch
6 Gwenyn
7 Mosgitos
8 Colomennod
9 Gwylanod
10 Gwiwerod
11 Cadnoid
12 Llau Llyfrau (Psocids)
13 Chwilod Duon
14 Pŷcs
15 Chwilod Carpedi
16 Clêr


Ein rhif cysylltu:

**01446 709105**

Ein cyfeiriad:

Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli,
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

ebost: regserv@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk


VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

...gair o gyngor oddi wrth Wasanaeth Difa Pla Cyngor Bro Morgannwg...

an advice note from your Pest Control Service

No. 16 in the series

# flies!



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

www.valeofglamorgan.gov.uk

## .....flies

Every year we receive many complaints about fly infestations, particularly during the summer and autumn. Flies are common in rural areas where farms and stables provide an abundant supply of manure in which they can breed. The following flies are the most common cause of problems.

## .....the common house fly

The female housefly can lay 120-150 eggs at a time and, depending on the temperature, the eggs can hatch into maggots within 8-48 hours. The maggots then burrow into a food source. The new fly can emerge any time from four days to several weeks in cooler weather. The earliest flies tend to emerge in May and the greatest numbers are usually found during August and September.

Breeding more or less ceases in October, except in heated premises. During the winter, the House Fly's cycle is longer. They breed in suitable indoor areas, in decaying animal or vegetable matter, rubbish heaps and horse manure.

## .....the lesser house fly

The Lesser House Fly has a similar life cycle to that of the Common House Fly, although it does not tend to move between waste matter and human food. It is identifiable by its quick darting movements.

## .....the cluster fly

This fly gets its name from its habit of clustering like a swarm of bees. It is larger than the Common House Fly and can be easily identified as it fold its wings over its back.



02862 (3/04)

The Cluster Fly enters a house during autumn to hibernate and leaves in spring, often causing a nuisance at these times. In the autumn, the flies tend to collect on the outside of buildings on warm elevations and later find their way inside to cluster – sometimes in their thousands – in roof spaces, under tiles and in sash windows. The Cluster Fly is a parasite of earthworms.

## .....control

Dustbins should be kept clean and all perishable food should be wrapped up. To kill the occasional fly, a 'knock down' spray can be effective. When flies (such as Cluster Flies) are particularly troublesome, fly strips can be hung up in the roof spaces and any dead flies can be cleared up using a vacuum cleaner. Food should be kept covered at all time to prevent contamination. Our Pest Control Officers do provide a professional treatment service for large infestations. There is, however, a charge.

Other leaflets available in this series:

1 Fleas
2 Rats
3 Mice
4 Ants
5 Wasps
6 Bees
7 Mosquitos
8 Pigeons
9 Seagulls
10 Squirrels
11 Foxes
12 Booklice (Psocids)
13 Cockroaches
14 Bedbugs
15 Carpet Beetles
16 Flies

Our contact number:

**01446 709105**

Our address:

Legal & Regulatory Services,
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU

Our email: regserv@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

...an advice note from the Pest Control Service at the Vale of Glamorgan Council...

Gair o gyngor oddi wrth eich Gwasanaeth Difa Pla

Rhif 16 yn y gyfres

# clêr!



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

www.valeofglamorgan.gov.uk